**Beth yw Llan**

Pererindod, Iaith a Menter yw ffrydiau allweddol prosiect newydd “Llan” yn Esgobaeth Bangor, sydd wedi derbyn cefnogaeth gan Gronfa Efengylu'r Eglwys yng Nghymru. Nod y Gronfa Efengylu yw cefnogi prosiectau esgobaethol o faint sylweddol sy'n canolbwyntio ar dyfu'r Eglwys.

Mae “Llan” yn brosiect saith mlynedd, gwerth £3m, a fydd yn gweld gweinidogaethau newydd yn datblygu ledled yr esgobaeth, wrth i ni ganolbwyntio ar estyn allan mewn ffyrdd newydd i’n cymunedau gyda chariad Duw yng Nghrist. Bydd Llan yn ein galluogi i ddatblygu ein gweinidogaeth bererindod ym mhob cwr o’r esgobaeth, i dyfu cymuned eglwysig Gymraeg newydd, ac i lansio pedair menter gymdeithasol a fydd yn arloesi math newydd o bresenoldeb a thsytiolaethu Anglicanaidd mewn pedair o'n trefi a'n pentrefi.

**Pererindod**

Bydd pwyslais Llan ar Bererindod yn caniatáu inni ddathlu lleoedd, adeiladau a thirnodau sy'n mynegi ehangder ein treftadaeth Gristnogol. Byddwn yn buddsoddi mewn chwe chanolfan ragoriaeth newydd o amgylch yr esgobaeth, ac mewn llwybrau pererindota hen a newydd ym mhob cwr o’r esgobaeth. Yn bwysicach fyth, byddwn hefyd yn buddsoddi mewn pobl trwy hyfforddi croesawyr a thywyswyr i adrodd ein stori Gristnogol, a gwahodd ymwelwyr i ddod yn wir bererinion trwy gydblethu eu stori eu hunain â stori fyw ffydd.

**Iaith**

Bydd pwyslais Llan ar Iaith yn ein gweld yn tyfu cymuned eglwys Gymraeg newydd, gyda chefnogaeth cynllun “blwyddyn i ffwrdd” a fydd yn caniatáu i hyd at bum person ifanc bob blwyddyn gael blas ar weinidogaeth Gristnogol Gymraeg ei hiaith. Yn ogystal, byddwn yn datblygu ystod o adnoddau Anglicanaidd Cymraeg i gefnogi dysgu, addoli ac arloesi.

**Menter**

Bydd pwyslais Llan ar Fenter yn ein galluogi i sefydlu pedwar canolbwynt newydd o weithgaredd cymunedol yn yr esgobaeth. Boed yn gaffi neu’n dafarn, yn ofod celfyddydol neu’n weithdy ar gyfer busnesau bach lleol, yn hostel ar gyfer partïon ysgol sy’n cerdded y bryniau neu’n siop gornel mewn pentref lle mae gwasanaethau'n brin, bydd mentrau sy'n canolbwyntio ar gyfiawnder yn cael eu lansio i helpu i ddod ag egni newydd i gymunedau lleol, yn ogystal â rhoi cyfle i fath newydd o eglwys i ymgynnull yno.

---

Caiff Llan ei gefnogi o Dŷ Deiniol, swyddfeydd yr esgobaeth ym Mangor, ond mae'n brosiect ledled yr esgobaeth a fydd yn cael effaith ar draws gogledd-orllewin a chanolbarth Cymru.

**Mae Bwrdd Cyllid Esgobaeth Bangor yn cefnogi cenhadaeth a gweinidogaeth Esgobaeth Bangor / The Bangor Diocesan Board of Finance supports the mission and ministry of the Diocese of Bangor**
Elusen gofrestredig / Registered charity / **1075931** / Cwmni cofrestredig yng Nghymru a Lloegr / Registered company in Wales & England / **03655641**
Cyfeiriad cofrestredig / Registered address / **Tŷ Deiniol, Clos y Gadeirlan / Cathedral Close, Bangor LL57 1RL**

**Disgrifiad Swydd - Cyfarwyddwr Cyswllt Llan**

**Pwrpas y Swydd**
Mae Cyfarwyddwr Cyswllt 'Llan' yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb cyffredinol am reoli a chyflenwi'r prosiect yn effeithiol. Gan weithio'n agos ag Ysgrifennydd yr Esgobaeth, Cyngor yr Esgob, Cyngor yr Esgobaeth a'r Seiat Ddoethion, mae'r Cyfarwyddwr Cyswllt yn gyfrifol am osod a chyflenwi cyfeiriad strategol 'Llan'. Gan weithredu fel prif arweinydd 'Llan', y Cyfarwyddwr Cyswllt sy'n gyfrifol am arwain Tîm y Prosiect.

Disgwylir i'r Cyfarwyddwr Cyswllt arwain trwy esiampl, gan gynnig arweiniad egnïol, gweladwy, ysbrydoledig a chydweithredol trwy gydol y prosiect, gan gymryd cyfrifoldeb personol am gyflenwi pob gwedd o 'Llan' a'i gwasanaethau tra'n galluogi eraill i wneud yr un fath..

**Prif Gyfrifoldebau**

1. Rheoli cyflenwi prosiect Llan, trwy:
    - a) ddilyn proses sylfaenol, fel y diffinnir gan Project Management Institute (PMI) UK, a llunio a chynnal dogfennaeth gynhwysfawr i'r prosiect
    - b) gynllunio – gan gynnwys gosod targedau ac amcanion penodol, a chynhyrchu rhestrau ac amserlenni tasgau
    - c) arwain ac ysgogi tîm y prosiect
    - ch) reoli'r prosiect – gan gynnwys cydlynu tîm y prosiect a'u cadw ar y llwybr cywir, cadw'r prosiect o fewn i'r gyllideb a sicrhau bod adnoddau ar gael a'u bod yn cael eu dosrannu
    - d) ddatblygu cynllun prosiect manwl i ddilyn y cynnydd, a chynnal gweithgareddau monitro a rheoli er mwyn cadw golwg ar ddatblygiad y prosiect
    - dd) adrodd yn ôl yn rheolaidd at Gyngor yr Esgob a Chyngor yr Esgobaeth
    - e) ddatblygu cynigion ar gyfer cynaladwyedd hirdymor y prosiect a'i diweddu, gan gynnwys gwerthuso llwyddiannau a heriau

2. Rheoli amser ac egni er mwyn sicrhau ffocws o 40% ar y ffrwd Pererindod, 20% ar y ffrwd Iaith, a 40% ar y ffrwd Menter

3. Oddi fewn i'r ffrwd 'Pererindod', sicrhau cyflenwi'r dibenion trwy:
    - a) Recriwtio ac anwytho Cyfarwyddwr Marchnata, Datblygiad a Chynaladwyedd gyda ffocws ar adeiladu gallu masnachol twristiaeth-ffydd newydd o fewn Tîm Deiniol
    - b) Sefydlu cytundebau partneriaeth gyda Cadw a Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru

4. Oddi fewn i'r ffrwd 'Iaith', sicrhau cyflenwi'r dibenion trwy:
    - a) Sicrhau pa Ardal Weinidogaeth sydd i'w dewis ar gyfer mynegiant newydd o'r Eglwys a'r gymuned breswyl
    - b) Recriwtio Arweinydd Cymuned Arloesol i arwain wrth wasanaethu a rhoi clust i'r gymuned Gymraeg leol
    - c) Recriwtio Galluogydd Cenhadu ac Efengylu yn Gymraeg

5. Oddi fewn i'r ffrwd 'Menter', sicrhau cyflenwi'r dibenion trwy:
    - a) Dewis dau Weithredwr Arloesi
    - b) Ffurfioli a dechrau rhaglen hyfforddi ac anwytho pwrpasol gydag elfennau o Gymdeithas Genhadol yr Eglwys (model hyfforddi entrepreneuriaeth genhadol "Make Good") a Byddin yr Eglwys (rhaglen hyfforddi arweinwyr mentrau cymdeithasol)
    - c) Dewis dau leoliad a menter, a dechrau cynllunio busnes manwl
    - d) Dewis dau dîm cefnogi o'r Ardaloedd Gweinidogaeth a nodwyd

6. Cyfrannu at ddysgu ar y cyd ledled Esgobaeth Bangor a'r Eglwys yng Nghymru ar sail effaith holl ffrydiau Llan.

7. Cyfranogi'n llawn mewn perthynas reolaeth llinell gydag Ysgrifennydd yr Esgobaeth.

---

**Manyleb y Person - Cyfarwyddwr Cyswllt Llan**

- Profiad o arwain ac ysgogi tîm y prosiect
- Profiad o adrodd ar brosiectau i uwch-reolwyr
- Sgiliau rheoli amser rhagorol
- Deall rôl Esgobaeth Bangor a'i Datganiad Gweledigaeth
- Sgiliau trefnu a rheoli ardderchog
- Sgiliau cyfathrebu ardderchog ac yn hyderus wrth gysylltu ar bob lefel

- Sgiliau rhyngbersonol ardderchog mewn sefyllfaoedd grŵp ac un-i-un gyda'r gallu cadarn i negodi, dylanwadu a pherswadio
- Gwybodaeth a phrofiad o reoli prosiect yn llwyddiannus
- Record a brofwyd o reoli cyflenwi rhaglenni a phrosiectau'n llwyddiannus yn unol â'r deilliannau a ddymunwyd a therfynau ansawdd, amser a chost a gytunwyd
- Profiad o weithio'n llwyddiannus ar sawl prosiect ar yr un pryd
- Profiad gweladwy o nodi a rheoli prosiectau sy'n croesi ffiniau gwasanaethau. Methodoleg, cyfarpar a thechnegau rheoli rhaglenni a phrosiectau.
- Profiad blaenorol o'r defnydd addas o gyfarpar a thechnegau rheoli prosiectau i alluogi gweithio'n gydweithrediadol ac mewn Partneriaeth er mwyn llwyddiant cyflenwi rhaglenni a phrosiectau
- Profiad o adeiladu a chynnal partneriaethau adeiladol a chydberthnasau cydweithrediadol
- Profiad gweladwy o weithio gyda chwsmeriaid, partneriaid a chyflenwyr allanol a mewnol i reoli a chyflenwi prosiectau cymhleth
- Gwybodaeth a phrofiad o sut i sicrhau dylanwad strategaethol a llwyddo i negodi busnes er mwyn cyflawni deilliannau gofynnol.
- Profiad llwyddiannus o reoli contractwyr er mwyn cyflawni deilliannau gofynnol
- Profiad o reoli ariannol cadarn yn unol â chyllidebau ac amserlenni a gytunwyd
- Profiad llwyddiannus o reoli timau prosiect er mwyn cyflawni deilliannau gofynion mewn sefyllfaoedd.
- Profiad gweladwy o gyflenwi rhaglenni a phrosiectau i'r deilliannau a ddymunwyd ac o fewn ansawdd, amser a chost.

**Sgiliau a Nodweddion**

- Y gallu i weld a deall y darlun mawr a'i gymhwyso i'ch rhaglen waith eich hunan a Rheoli prosiectau
- Y gallu i gynllunio a threfnu ac i sicrhau bod amserau a dyddiadau cau a thargedau a gytunir yn cael eu hateb
- Y gallu i arwain tîm ac i ddirprwyo cyfrifoldeb tra'n cynnal y cyfeiriad cyffredinol er mwyn rheoli newid yn effeithiol
- Y gallu i weithio fel rhan o dîm, i arwain rhannau allweddol o'r gwaith ac i fentora cydweithwyr sy'n arwain ar agweddau eraill
- Y gallu i addasu steil bersonol er mwyn caniatáu i faterion a phrosiectau symud ymlaen yn adeiladol a phositif .
- Y gallu i addasu a'r parodrwydd i gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau
- Y gallu i gynllunio a rheoli cyllidebau ac i ymarfer rheolaeth ariannol gadarn a rheolaeth gyllidol ar draws meysydd rhaglenni a phrosiectau unigol.
- Y gallu i adeiladu a chynnal cysylltiadau busnes cryf ac adeiladol gyda chwsmeriaid a phartneriaid mewnol ac allanol.
- Mae'r gallu i siarad Cymraeg yn ddymunol ar gyfer y rôl.

Dychwelwch eich CV, ynghyd â llythyr i gefnogi'ch cais drwy e-bostio:
Paul Roberts, Swyddog Cyfathrebu Esgobaeth Bangor paulroberts@eglwysyngnghymru.org.uk